Gwasanaeth Tân ac Achub **De Cymru**

**South Wales** Fire and Rescue Service

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU

## CYFARWYDDIAETH GWASANAETHAU CORFFORAETHOL
## AIL-HYSBYSEBWYD - Swyddog Cyfathrebiadau, Atynnu ac Ymgysylltu
## 37 AWR YR WYTHNOS
## CYFEIRNOD: 503104
## GRADD 8 - CYFLOG: £24,313 - £26,317
## Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n chwilio am weithiwr cyfathrebiadau ac ymgysylltu ymroddedig a chreadigol i ymuno â'u Tîm Y Wasg a Chyfathrebiadau prysur a leolir yn eu Pencadlys yn Llantrisant.

Mae cyfathrebu ac ymgysylltu ill dau'n chwarae rôl gritigol o fewn cenhadaeth y Gwasanaeth i 'gadw De Cymru'n ddiogel wrth leihau risg'. Bydd deilydd y swydd yn gweithio ar draws pob agwedd o gyfathrebu ac ymgysylltu, yn cynhyrchu datrysiadau arloesol wrth drefnu a hwyluso gweithgareddau ymgysylltu a chyfathrebiadau mewnol ac allanol. Bydd hyn yn cynnwys rheoli ymgyrchoedd, cysylltu â'r wasg, hwyluso a chydlynu digwyddiadau ymgysylltu lleol ac ar raddfa fawr.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr feddu ar sgiliau ysgrifennu cryf a'r gallu i ychwanegu dawn greadigol i'n cynnwys a gynhyrchwyd yn fewnol, gan gynnwys diwgyddiadau a gweithgareddau sy'n ymwneud â recriwti, lleihau risg ac enw da'r Gwasanaeth. Bydd y swydd yn gofyn am weithio'n gydweithredol ag ystod eang o bartneriaid a rhanddeiliaid ar draws 10 o Awdurdodau Unedol gan ddefnyddio amrediad o ddulliau i sbarduno Strategaeth Gyfathrebiadau ac Ymgysylltu'r Gwasanaeth yn rhagweithiol.

O fewn y rôl amrywiol hon, ni fydd un diwrnod yr un poeth gyda therfynau amser cystadleuol, felly bydd angen i'r ysmgeisydd llwyddiannus fod yn effeithlon, yn drefnus a hyderus wrth weithio'n annibynnol. Yn ogystal â bod yn gallu defnyddio eich dyfeisgarwch a datblygu syniadau newyddd, mae'r Gwasanaeth yn chwilio am aelod tîm fydd yn mwynhau gweithio'n gydweithredol. Mae'r gallu i deithio'n hanfodol ar gyfer y swydd hon, gan fydd y rôl yn gofyn am ymgysylltu ag adrannau mewnol ar draws ein Gorsafoedd a'n safleoedd o fewn De Cymru gan gynnwys partneriaid allanol a rhanddeiliaid allweddol.

Oes diddordeb gennych? Ymunwch â ni ac ymgeisiwch nawr. Mae croeso i ymgeiswyr sydd wedi ymgeisio ar gyfer y rôl hon yn flaenorol wneud hynny eto, ond sylwch ar y newidiadau i'r Fanyleb Person.

**Gellir lawr lwytho Ffurflen Gais, Manyleb Person a Swydd-Ddisgrifiad o'n gwefan www.decymru-tan.gov.uk.**

Dylid danfon ffurflenni cais gorffenedig at: Y Tîm Recriwtio ac Adnoddu, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX neu drwy law e-bost at personél@decymru-tan.gov.uk.
**Y dyddiad Cau ar gyfer ffurflenni cais yw Dydd Llun 9 Tachwedd am 17:00 o'r gloch.**

Nodwch nad ydym yn derbyn ffurflenni CV.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol.

A fyddech cystal â nodi fod pob cyflog yn amodol ar werthusiad swydd.

**Mae GTADC yn credu fod gwir werth mewn cael gweithlu amrywiol ac rydym am fod yn rhagweithiol wrth annog ymgeiswyr o bob sector o'n cymuned i ymgeisio.**

hyderus o ran anabledd
YMRODDEDIG